# PWYLLGOR SAFONAU

# DYDD GWENER 14 HYDREF 2022

**YN BRESENNOL:** Mrs M. Dodd [Cadeirydd] (P)

**Aelodau Annibynnol:**
C. Davies (H), J. James (P) a P. Rogers (P)

**Cynghorwyr:**
R. James (H), B.W. Jones (H) a G.B. Thomas (H)

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
L. Rees-Jones - Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith / Swyddog Monitro (H)
R. Edgecombe - Rheolwr Gwasanaethu Cyfreithiol / Dirprwy Swyddog Monitro (P)
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Nodiadau] (H)
J. Owen - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (P)
S. Hendy - Swyddog Cymorth Aelodau (P)
A. Eynon - Cyfieithydd ar y Pryd (P)

**Hefyd yn bresennol:**
Ms S. Cook - Swyddog Ymchwilio Cynorthwyol, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (H)
Y Cynghorydd Tref L. Wride (H)

[P = Presennol yn Neuadd y Sir H = Hirbell drwy Zoom]

**Cyfarfod Aml-leoliad: Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 2.30 pm - 3.22 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Mrs D. Evans, Aelod Annibynnol.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

4. **ADOLYGIAD CYN GWRANDAWIAD MEWN PERTHYNAS AG ADRODDIAD A GYHOEDDWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU YN YMWNEUD Â'R CYNGHORYDD TREF LOUISE WRIDE**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol a gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn (Paragraffau 12 a 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn ystod y cam cychwynnol hwn o broses dau gam yn ymyrraeth ormodol a heb gyfiawnhad i fywyd preifat a theuluol y Cynghorydd a thrydydd partïon eraill y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.**

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Tref Louise Wride a Ms Sinead Cook o Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r cyfarfod.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod ystyriaeth gychwynnol wedi'i rhoi i'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r Cynghorydd Tref Louise Wride, yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 25 Awst. Yn y cyfarfod hwnnw penderfynodd y Pwyllgor roi cyfle i'r Cynghorydd Wride gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad.

Prif bwrpas yr Adolygiad Rhagwrandawiad oedd ystyried cais y Cynghorydd Wride am i'r gwrandawiad terfynol gael ei glywed yn breifat. Nodir y ddeddfwriaeth berthnasol yn Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer ystyried mater yn breifat lle mae'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol (paragraff 12) a gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn (paragraff 13). Mae'r ddwy sail hyn yn destun prawf ehangach o ran budd y cyhoedd.

Gwahoddwyd Ms Cooke o Swyddfa'r Ombwdsmon i annerch y Pwyllgor a rhoddodd ychydig o gefndir a chyd-destun ynghylch yr achos.

Yna gwahoddwyd y Cynghorydd Wride i annerch y Pwyllgor ynglŷn â chamau pellach yr achos.

Esboniodd y Dirprwy Swyddog Monitro, pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu cynnal y cam nesaf yn gyhoeddus, y byddai'n dal yn bosibl i'r Pwyllgor gynnal sesiwn breifat pe baent yn barnu bod hynny'n angenrheidiol.

Yn dilyn trafodaeth hir,

**PENDERFYNWYD, yn unol â'r gofyniad i fod yn agored ac yn dryloyw mewn perthynas â'r dyletswyddau a wneir gan y Pwyllgor Safonau, fod gwrandawiad terfynol yr achos mewn perthynas â'r Cynghorydd Tref Louise Wride yn cael ei gynnal yn gyhoeddus gan roi sancsiynau ar waith i alluogi'r Pwyllgor i gynnal sesiwn breifat pe bai hynny'n cael ei farnu'n angenrheidiol.**

**5. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972**

Nid oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys i'w hystyried.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**